Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Environmental Committee held on 26 February 2024 at 6.38 pm Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

**Councillors Present** Helen Nelson (Chair), Martin O'Neil, and Rebecca Fogarty.

**Co-opted member present:** Eddie Hall

**Officers Present:** Martin Russell – Grounds Person, Lydia Graham – Environmental Officer and Ian Hughes – Committee Support Officer (CSO)

**EN2402-01** **Apologies:** Cllrs. Emelie Cox, Sara Keeton, Carrie Townsend Jones, and Michael Parkin

Further to the action arising from **EN2401-04,** The Chair, Cllr Nelson suggested Ennea Smith of Plastic Free Mumbles being approached to replace Ffion Evans who is unable to continue as a co-opted member.

**ACTION:** Cllr Fogarty to approach Ennea Smith with a view to being a co-opted member.

**EN2402-02** **Declarations of Interest:** None

**EN2402-03** **Minutes of the previous Meeting of the Committee**

To approve the minutes of the meeting held on 22nd January 2024 as a true record.

**RESOLVED** to approve the minutes of the meetings held on 22nd January 2024 as a true record which was proposed by Cllr. Nelson and seconded Cllr. Fogarty.

Mumbles Community Council

## EN2402-04 Actions from previous meetings update

The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of 'actions' to committee members.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

## EN2402-05 Budget Monitoring Report to 31/12/2023 - Paul Beynon, RFO

Reports attached.

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon had previously been provided to councillors, the CSO stated that ideally any questions relating to a budget report should be provided to RFO in advance of a committee meeting; this would allow the RFO to prepare a full answer to any query and update The Clerk/CSO as appropriate.

The Code ENV16 (relating to 'any plans for budget or can it be vired to Water Bottle Filters overspend?' generated a discussion concerning how best to submit and process future applications, incorporating strategic aims connected to the climate emergency.

**ACTION:** Lydia to draft an Environmental Vision Plan for discussion as an agenda item at March Committee Meeting .

**ACTION:** The Chair, Cllr Nelson to discuss future monitoring reports and budgets with The RFO prior to March Committee Meeting.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 31st December 2023

## EN2402-06 Environmental Budget 2024/25 - Paul Beynon, RFO

Report attached.

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon had previously been provided to councillors. A discussion ensued on items detailed within Budget Report for 2024/25 with particular emphasis on Jubilee Gardens and how best to utilise this area. A number of local businesses have been in contact with MCC including Mark

Mumbles Community Council

Dennis of Ripples who has advocated making use of the gardens in relation to cycling activities. Lydia Graham stated that she is in contact with a number of local stakeholders but is awaiting a funding decision.
The wish for The RFO to attend Environmental Meetings every three months was also raised, this would add clarity for committee members to budgeting issues.

**ACTION:** Lydia to meet with stakeholders to agree a consensus on the future of Jubilee Gardens. Meeting to take place once funding agreed and Cllr Nelson also to be present. Following this meeting the issue of Jubilee Gardens to be discussed as an agenda item at a future committee meeting.

**ACTION:** The CSO to request the attendance of The RFO at Environmental Committee meetings every three months.

**RESOLVED** to approve the Environmental Budget Report 2024/25.

**EN2402-07** **The Big Climate Leap**

Lydia detailed how she had liaised with Ally from the Environmental Centre and that a meeting was being arranged. A discussion took place on the benefits of Carbon Literacy Training and how this would be beneficial for all councillors within MCC.

**ACTION**: Lydia to arrange a meeting with Ally of the Environmental Centre at which Cllrs Fogarty and Nelson will attend.

**ACTION**: Lydia to arrange Carbon Literacy training for councillors within MCC.

**EN2402-08** **Mumbles Gardeners Question Time and Mumbles Buzz and Bloom**

Cllr Nelson outlined how the inaugural Mumbles Question Time will take place between 5.30 and 7.30pm on 26th March 2024 within the café/book area of Newton Community Hall. There will be a maximum of sixty in the audience and a panel chaired by Cllr Nelson including Sue Kent, Teifion Davies and Peter Robinson.

Mumbles Community Council

In addition, there will be a supporting panel with questions being submitted in advance by the audience when reserving their place.

Cllr Nelson also detailed that the launch of Mumbles Buzz and Bloom will be made during Mumbles Gardeners Question Time. This will be advertised, and Cllr Nelson will draft a list of judges and categories.

Lydia Graham outlined that in addition to posters advertising both events, bookings and advertising for Mumbles Gardeners Question Time is to be made through 'Event Break'. The arrangements for gardeners to book their participation with Mumbles Buzz & Bloom will be finalised prior to the launch.

**ACTION:** Both Cllr Nelson and Lydia to complete final arrangements for both events, this includes the existing action relating to identifying categories and judges. Liaison with other relevant councillors including Cllrs Scott and Jarvis will also be necessary and completing logistics such as identifying a deadline for applicants to participate in Mumbles Buzz and Bloom.

**EN2402-09** **Environment Officer - Monthly Report on current projects and overview:**

Lydia Graham outlined details of further volunteer days including litter picks, Bee Friendly Events and weeding days which will be advertised through posters and MCC Website.
Lydia also covered dead hedging and wildflower planting which has been detailed in the grounds person's agenda item (**EN2402-10**)
Lydia outlined that the last Green Heroes Event on 22nd February 2024 with 28 people attending was a great success. Two suggestions arising from the event; -

- To arrange with Swansea City Council for a 'wash and squash' recycling campaign to be advertised on the sides of bin lorries (ACTION: Cllr Fogarty to discuss options available with SCC)
- To arrange through Swansea Council for MCC Councillors (maximum of 15) to participate in a field trip to Swansea's recycling plant to increase their awareness of processes etc. In addition it was suggested by Cllr Nelson that a video be created at the event and that it be uploaded on MCC Website to raise awareness within the community of recycling work. (ACTION: Lydia to arrange)

Mumbles Community Council

**EN2402-10** **Grounds Person Report** – bi-monthly verbal report of activity and next steps.

Martin Russell outlined the benefits of planting through 'plug and seed' as opposed to wildflower turfing. The seeds used by Martin are native to Swansea and locally sourced. It is a long-term three-year project which requires the education of local residents and Swansea City Council employees in areas such as grass cutting. This in part will be achieved through signs that are being strategically placed to raise awareness.
It was suggested by councillors that Martin's explanation of wildflower verge planting be overlaid onto a video of suitable planted areas and uploaded onto The MCC Website. This would have the advantage of educating local residents about wildflower planting and assist in the identification of future locations to be planted.

Martin reinforced the message of Lydia on the importance of dead hedging events and the benefits of clearing footpaths such as the 'Orchard' Path particularly during the winter months. The next dead hedging day will be on the 16th March 2024 and involves volunteers.

ACTION: Lydia Graham to facilitate the overlaying of Martin's narration of wildflower planting onto a video of suitable planting for uploading onto MCC Website.

ACTION: Cllr Nelson to arrange through liaison with SA1 and The Clerk for greater environmental input throughout MCC Website including issues such as dead hedging and other volunteer days.

**Meeting concluded at 8.16pm**

**Next Meeting 25th March 2024**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Amgylcheddol a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2024 am 6.38 pm Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol** Helen Nelson (cadeirydd), Martin O'Neil a Rebecca Fogarty

**Aelod cyfetholedig yn bresennol:** Eddie Hall

**Swyddogion yn bresennol:** Martin Russell – Tirmon, Lydia Graham – Swyddog yr Amgylchedd, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**EN2402-01** **Ymddiheuriadau:** Y cynghorwyr Emelie Cox, Sara Keeton, Carrie Townsend Jones
a Michael Parkin

Ymhellach i'r camau gweithredu sy'n deillio o **EN2401-04**, awgrymodd y cadeirydd, y Cynghorydd Nelson, y dylid cysylltu ag Ennea Smith o'r Mwmbwls Di-blastig i gymryd lle Ffion Evans am nad yw'n gallu parhau fel aelod cyfetholedig.

**CAM GWEITHREDU:** Y Cynghorydd Fogarty i gysylltu ag Ennea Smith gyda golwg ar fod yn aelod cyfetholedig.

**EN2402-02** **Datganiadau o fuddiant:** Dim

**EN2402-03** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2024 fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2024 fel cofnod cywir, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Nelson ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Fogarty.

EN2402-04 **Diweddariad ar gamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol**

Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddariad i'r pwyllgor ar yr holl gamau gweithredu oedd heb eu cymryd ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD:** Diweddarwyd y camau gweithredu heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai a gwblhawyd lle bo'n briodol. Mae manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd.

EN2402-05 **Adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31/12/2023 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol**
Adroddiadau wedi'u hatodi.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u darparu i gynghorwyr yn flaenorol. Dywedodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau y dylai unrhyw gwestiynau yn ymwneud ag adroddiad cyllideb, yn ddelfrydol, gael eu darparu i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn cyfarfod pwyllgor; byddai hyn yn galluogi'r swyddog hwn i baratoi ateb llawn i unrhyw ymholiad a diweddaru'r clerc / y Swyddog Cymorth Pwyllgorau fel y bo'n briodol.

Cynhyrchodd cod ENV16 (yn ymwneud ag 'unrhyw gynlluniau ar gyfer cyllideb neu a ellir ei drosglwyddo i orwariant hidlwyr potel dŵr?') drafodaeth ynghylch y ffordd orau o gyflwyno a phrosesu ceisiadau yn y dyfodol, gan ymgorffori nodau strategol sy'n gysylltiedig â'r argyfwng hinsawdd.

**CAM GWEITHREDU:** Lydia i ddrafftio Cynllun Gweledigaeth Amgylcheddol i'w drafod fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Mawrth.

**CAM GWEITHREDU:** Y cadeirydd, y Cynghorydd Nelson, i drafod adroddiadau monitro a chyllidebau yn y dyfodol gyda'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn cyfarfod y pwyllgor ym mis Mawrth.

Mumbles Community Council

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Rhagfyr 2023.

EN2402-06 **Cyllideb amgylcheddol 2024/25 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol**
Adroddiad wedi'i atodi.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol Paul Beynon wedi'u darparu i gynghorwyr yn flaenorol. Cafwyd trafodaeth ar eitemau y manylwyd arnynt yn Adroddiad Cyllideb 2024/25, gyda phwyslais arbennig ar Erddi Jiwbilî a'r ffordd orau o ddefnyddio'r ardal hon. Mae nifer o fusnesau lleol wedi bod mewn cysylltiad â Chyngor Cymuned y Mwmbwls, gan gynnwys Mark Dennis o Ripples, sydd wedi argymell gwneud defnydd o'r gerddi mewn perthynas â gweithgareddau beicio. Dywedodd Lydia Graham ei bod mewn cysylltiad â nifer o randdeiliaid lleol ond ei bod yn aros am benderfyniad ariannu.
Codwyd y dymuniad i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol fynychu cyfarfodydd amgylcheddol bob tri mis hefyd. Byddai hyn yn ychwanegu eglurder i aelodau'r pwyllgor ar faterion cyllidebu.

**CAM GWEITHREDU:** Lydia i gwrdd â rhanddeiliaid i gytuno ar gonsensws ar ddyfodol Gerddi Jiwbilî. Cyfarfod i'w gynnal unwaith y bydd cyllid wedi'i gytuno a'r Cynghorydd Nelson i fod yn bresennol hefyd. Yn dilyn y cyfarfod hwn, bydd mater Gerddi Jiwbilî yn cael ei drafod fel eitem ar yr agenda mewn cyfarfod pwyllgor yn y dyfodol.

**CAM GWEITHREDU:** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i ofyn am bresenoldeb y Swyddog Ariannol Cyfrifol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Amgylcheddol bob tri mis.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Adroddiad Cyllideb Amgylcheddol 2024/25.

EN2402-07 **The BIG Climate Leap**

Manylodd Lydia ar sut yr oedd wedi cysylltu ag Ally o'r Ganolfan Amgylcheddol a bod cyfarfod yn cael ei drefnu. Cafwyd trafodaeth ar fanteision hyfforddiant llythrennedd carbon a sut y byddai hyn o fudd i bob cynghorydd yng Nghyngor Cymuned y Mwmbwls.

Mumbles Community Council

**CAM GWEITHREDU:** Lydia i drefnu cyfarfod gydag Ally o'r Ganolfan Amgylcheddol, y bydd y Cynghorydd Fogarty a'r Cynghorydd Nelson yn bresennol ynddo.

**CAM GWEITHREDU:** Lydia i drefnu hyfforddiant llythrennedd carbon i gynghorwyr o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

EN2402-08

## Hawl i Holi Garddwyr a Buzz and Bloom y Mwmbwls

Amlinellodd y Cynghorydd Nelson sut y bydd sesiwn gyntaf Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls yn cael ei chynnal rhwng 5.30pm a 7.30pm ar 26 Mawrth 2024 yn ardal caffi/llyfrau Neuadd Gymunedol Newton. Bydd uchafswm o 60 yn y gynulleidfa a phanel dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Nelson yn cynnwys Sue Kent, Teifion Davies a Peter Robinson.

Yn ogystal, bydd panel ategol gyda chwestiynau'n cael eu cyflwyno ymlaen llaw gan y gynulleidfa wrth gadw eu lle.

Dywedodd y Cynghorydd Nelson hefyd y bydd lansiad Buzz and Bloom y Mwmbwls yn cael ei gynnal yn ystod sesiwn Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls. Bydd hyn yn cael ei hysbysebu, a bydd y Cynghorydd Nelson yn drafftio rhestr o feirniaid a chategorïau.

Amlinellodd Lydia Graham, yn ogystal â phosteri yn hysbysebu'r ddau ddigwyddiad, y bydd archebion a hysbysebion ar gyfer Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls yn cael eu gwneud drwy gyfrwng 'Event Break'. Bydd y trefniadau i arddwyr archebu lle gyda Buzz & Bloom y Mwmbwls yn cael eu cwblhau cyn y lansiad.

**CAM GWEITHREDU:** Y Cynghorydd Nelson a Lydia i gwblhau'r trefniadau terfynol ar gyfer y ddau ddigwyddiad. Mae hyn yn cynnwys y camau gweithredu presennol sy'n ymwneud ag adnabod categorïau a beirniaid. Bydd angen cysylltu â chynghorwyr perthnasol eraill, gan gynnwys y cynghorwyr Scott a Jarvis, hefyd a chwblhau logisteg megis pennu dyddiad cau i ymgeiswyr gymryd rhan yn nigwyddiad Buzz and Bloom y Mwmbwls.

Mumbles Community Council

**EN2402-09** **Swyddog Amgylcheddol – adroddiad misol ar brosiectau cyfredol a throsolwg:**

Amlinellodd Lydia Graham fanylion diwrnodau gwirfoddoli pellach, gan gynnwys sesiynau codi sbwriel, digwyddiadau caru gwenyn a diwrnodau chwynnu, a fydd yn cael eu hysbysebu trwy bosteri a gwefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls.
Roedd Lydia hefyd yn ymdrin â chreu gwrychoedd marw a phlannu blodau gwyllt, sydd wedi'u nodi yn eitem y tirmon ar yr agenda (**EN2402-10**).
Nododd Lydia fod y digwyddiad Arwyr Gwyrdd olaf ar 22 Chwefror 2024, lle roedd 28 o bobl yn bresennol, yn llwyddiant mawr. Nodwyd dau awgrym a oedd wedi codi o'r digwyddiad: -

- Trefnu ymgyrch ailgylchu 'golchi a gwasgu' gyda Chyngor Dinas Abertawe, i'w hysbysebu ar ochrau lorïau bin (CAM GWEITHREDU: y Cynghorydd Fogarty i drafod yr opsiynau sydd ar gael gyda Chyngor Dinas Abertawe).
- Trefnu trwy Gyngor Abertawe i gynghorwyr Cyngor Cymuned y Mwmbwls (uchafswm o 15) gymryd rhan mewn taith maes i safle ailgylchu Abertawe i gynyddu eu hymwybyddiaeth o brosesau ac ati. Yn ogystal, awgrymodd y Cynghorydd Nelson y dylid creu fideo yn y digwyddiad a'i lanlwytho ar wefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls i godi ymwybyddiaeth o waith ailgylchu yn y gymuned (CAM GWEITHREDU: Lydia i'w drefnu).

**EN2402-10** **Adroddiad y tirmon** – adroddiad deufisol ar lafar ar weithgarwch a'r camau nesaf

Amlinellodd Martin Russell fanteision plannu gan ddefnyddio planhigion 'plwg' a hadau yn hytrach na thywyrch blodau gwyllt. Mae'r hadau a ddefnyddir gan Martin yn frodorol i Abertawe ac yn dod o ffynonellau lleol. Mae'n brosiect tair blynedd hirdymor sy'n gofyn am addysg trigolion lleol a gweithwyr Cyngor Dinas Abertawe mewn meysydd fel torri gwair. Bydd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol trwy arwyddion sydd wedi'u gosod yn strategol i godi ymwybyddiaeth.
Awgrymodd y cynghorwyr y dylid troshaenu esboniad Martin o blannu blodau gwyllt ar ymylon ffyrdd ar fideo o fannau addas wedi'u plannu a'i lanlwytho i wefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls. Mantais hyn fyddai addysgu trigolion lleol am blannu blodau gwyllt a chynorthwyo i nodi lleoliadau i'w plannu yn y dyfodol.

Ategodd Martin neges Lydia ar bwysigrwydd digwyddiadau creu gwrychoedd marw a manteision clirio llwybrau troed fel 'Llwybr y Berllan', yn enwedig yn ystod

Mumbles Community Council

misoedd y gaeaf. Bydd y diwrnod creu gwrychoedd marw nesaf ar 16 Mawrth 2024 a bydd yn cynnwys gwirfoddolwyr.

CAM GWEITHREDU: Lydia Graham i hwyluso troshaenu adroddiad Martin am blannu blodau gwyllt ar fideo plannu addas i'w lanlwytho i wefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

CAM GWEITHREDU: Y Cynghorydd Nelson i drefnu, drwy gysylltu ag SA1 a'r clerc, am fwy o fewnbwn amgylcheddol drwy wefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls, gan gynnwys materion fel creu gwrychoedd marw a diwrnodau gwirfoddoli eraill.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.16pm.**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 25 Mawrth 2024.**